*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

**Cynhelir cyfarfod o'r Panel Gweithredol DDYDD GWENER 29 GORFFENNAF 2022 dros Zoom. Dechreuir y cyfarfod am 2 o'r gloch y pnawn.**

Yn gywir

Gareth Owens
Clerc

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiad o Ddiddordebau**

3. **Rhybudd o Faterion Brys**

   Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Chwefror 2022**

5. **Materion yn codi**

6. **Ehangu rôl y Diffoddwr Tân yng Nghymru – capasiti'r Gwasanaeth Tân – Adolygiad Thematig**

7. **Monitro Perfformiad Ebrill 2021 – Mawrth 2022**

8. **Materion Brys**

   Ystyried unrhyw eitem y penderfyna'r Cadeirydd sy'n fater brys (o dan Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972) y nodwyd ei gynnwys o dan eitem 3 uchod.

**<u>RHAN II</u>**

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) o Deddf Llywodraeth Leol, 1972 bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer ystyried yr eitem(au) busnes canlynol am ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 i 18 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn cael ei datgelu iddynt.

**Dim**

**Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**
**Panel Gweithredol**

Cofnodion cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ddydd Llun 14 Chwefror 2022. Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am.

**Yn bresennol**

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| P Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol**

D Docx (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); G Owens (Clerc); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

1 YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| Y Cyng. A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. G Williams | Cyngor Gwynedd |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3.1 Dim.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 HYDREF 2021

4.1 Cafodd cofnodion cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2021 eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

6 GWYBODAETH AM COVID-19

6.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân (PST) wybod i'r Aelodau am yr effaith mae Covid-19 wedi'i chael yn ddiweddar. Nodwyd bod lefel uchel o absenoldeb dros gyfnod y Nadolig ac roedd y PST yn ddiolchgar i'r holl swyddogion a Rheolwyr Gwylfa a oedd wedi sicrhau parhad busnes ar y gorsafoedd yn ystod y cyfnod. Cadarnhawyd bod llai o lawer o absenoldebau yn gysylltiedig â Covid, a bod y Gwasanaeth yn dechrau ailafael mewn gweithgareddau wyneb yn wyneb yn y gymuned.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth, ac ar ran yr Aelodau, ategodd y Cadeirydd y neges o werthfawrogiad i'r staff am eu gwaith caled dros gyfnod y Nadolig.**

7 ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYNLLUN CORFFORAETHOL YR AWDURDOD 2021-24

7.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at lunio, yn 2022/23, yr adolygiad drafft o Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod 2021-24, i'w gymeradwyo yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod ym mis Mawrth 2022.

7.2 Atgoffwyd yr Aelodau bod yr Awdurdod, ym mis Mawrth ym mhob blwyddyn, yn cyhoeddi cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol sy'n cadarnhau ei amcanion gwella a llesiant ac sy'n esbonio beth mae'n bwriadu ei wneud yn ystod y flwyddyn honno i symud yr Awdurdod yn nes at eu cyflawni. Ym mis Mawrth 2021, fe wnaeth yr Awdurdod gyhoeddi Cynllun Corfforaethol 2021-24 lle roedd wedi nodi ei saith amcan gwella a llesiant hirdymor, ac ym mis Hydref 2021 cadarnhaodd yr Aelodau eu bod yn bwriadu parhau i fynd ynglŷn â'r un amcanion yn 2022/23.

7.3 Ym mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd gweithdai i'r Aelodau gan roi cyfle iddynt feddwl am rai heriau allweddol y tynnwyd sylw atynt drwy asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân, a'r canlyniadau i gyllideb yr Awdurdod. Roedd y gyllideb refeniw a gymeradwywyd wedi hynny, ym mis Rhagfyr 2021, yn cynnwys cynnydd o £1.33m i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at lunio, yn 2022/23, adolygiad o Gynllun Corfforaethol 2021-24 a fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn ym mis Mawrth 2022.**

8 MONITRO PERFFORMIAD EBRILL - RHAGFYR 2021

8.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad monitro perfformiad sy'n cynnwys y gweithgarwch mewn perthynas â digwyddiadau yn ystod naw mis cyntaf blwyddyn ariannol 2021/22; y perfformiad o ran amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod; a gweithgarwch nodedig arall mewn perthynas â digwyddiadau.

8.2 Aeth y PSC â'r aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y canlynol:

- 9,906 o Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u cynnal, sef 960 yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2020;
- 314 o danau damweiniol mewn cartrefi, a olygodd bod 30 o bobl wedi cael mân anafiadau, pedwar o bobl wedi cael anafiadau difrifol, a thri o bobl wedi colli eu bywydau;
- 22 o danau yng Ngharchar EM Berwyn, o gymharu â 22 yn yr un misoedd yn 2020.

8.3 Cafodd yr Aelodau wybod bod cynnydd sydyn wedi bod yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig o gymharu â'r un cyfnod yn 2020. Cafwyd cynnydd yn nifer yr adegau yr aethpwyd at ddigwyddiadau brys nad oeddent yn danau - o 415 i 701. Roedd hyn wedi digwydd yn rhannol oherwydd bod nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd wedi dychwelyd i'r lefelau cyn y pandemig ond hefyd roedd y Gwasanaeth wedi mabwysiadu dull gwahanol er mwyn bod yn fwy gweladwy yn y gymuned; roedd yr enghreifftiau'n cynnwys 'cael mynediad', helpu asiantaethau eraill, rhyddhau pobl o lifftiau, achub/rhyddhau pobl eraill, gwneud lleoliadau'n ddiogel heblaw mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, a gwahanu pobl oddi wrth wrthrychau.

8.4 Siom oedd nodi bod rhai cartrefi'n dal heb larymau mwg, er gwaethaf ymgyrchoedd parhaus, a gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau barhau i hyrwyddo'r Archwiliadau Diogel ac Iach yn eu cymunedau.

8.5 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.**

9 RHEOLI RISGIAU STRATEGOL

9.1 Aeth y PSC Morris â'r Aelodau drwy'r adroddiad, a oedd yn rhoi crynodeb o gynnwys cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

9.2 Nodwyd bod y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd wedi cwrdd â'r Rheolwr Cynllunio Corfforaethol i adolygu'r gofrestr risgiau strategol, a chydnabuwyd bod y gofrestr yn cael ei monitro'n ofalus ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y swyddogion.

9.3 **PENDERFYNWYD nodi'r risgiau strategol a ganfuwyd ac sy'n wynebu'r Awdurdod, a'r ffactorau lliniaru sy'n bodoli.**

10 CANLYNIADAU AROLWG STAFF "TEULU TÂN"

10.1 Rhoddodd y Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol gyflwyniad cyffredinol ar yr arolwg staff a gynhaliwyd yn y Gwasanaeth yn ddiweddar. Roedd yr arolwg yn rhan o'r cynllun gweithredu yn deillio o 100 diwrnod cyntaf y PST yn y Gwasanaeth.

10.2 Roedd cwestiynau'r arolwg wedi cael eu creu ar y cyd â sefydliad allanol, ac roedd yr holl ymatebion yn gwbl gyfrinachol. Roedd cynllun gweithredu wrthi'n cael ei lunio, caiff ei rannu gyda'r staff a bydd yn dangos sut bydd y Gwasanaeth yn canolbwyntio ar ganfyddiadau allweddol yr arolwg.

10.3 Roedd yr Aelodau'n croesawu'r ffaith fod yr arolwg staff wedi cael ei gychwyn ac roeddent yn falch o glywed y bydd yn cael ei gynnal eto ymhen dwy flynedd.

10.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

11 RHAGLEN CYSYLLTIADAU SYMUDOL Y GWASANAETHAU BRYS (ESMCP)

11.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Raglen Cysylltiadau Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP).

11.2 Atgoffwyd yr Aelodau mai nod y prosiect oedd cymryd lle'r system genedlaethol bresennol ar gyfer cysylltiadau data a radio a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys yn y DU, o'r enw Airwave. Mae Airwave yn gontract wedi cael ei gaffael yn genedlaethol, ac roedd i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2019. Fodd bynnag, cadarnhawyd bod contract Airwave wedi cael ei ymestyn tan 2026, gydag estyniad am ddwy flynedd yn rhagor os oes angen.

11.3 Cafodd yr ESMCP ei sefydlu gan Lywodraeth Ei Mawrhydi, a chafodd y prosiect ei arwain gan y Swyddfa Gartref er mwyn cyflwyno gwasanaeth newydd. Mae'r achos busnes wedi cael ei gymeradwyo erbyn hyn, ond roedd y cynnydd yn y prosiect yn eithriadol o araf.

11.4 Roedd y costau oherwydd yr oedi yn cynyddu drwy'r amser. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi ariannu'r pwysau o ran y costau. Fodd bynnag, cadarnhaodd y PST fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei chyfraniad grant ar lefel osodedig, gan adael £1m yn brin ar draws y tri GTA yng Nghymru, a fydd yn cynyddu gan fod y grant yn aros yn sefydlog a bod cost y system Airwave bresennol yn cynyddu.

11.5 Mynegodd Aelodau bryder am y sefyllfa, a chadarnhawyd bod Llywodraeth Cymru a'r gwasanaethau brys yng Nghymruqwsi mynegi pryderon tebyg wedi cael eu mynegi i'r Swyddfa Gartref.

11.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, ac y byddai'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r prosiect o ran oedi pellach, a'r costau dan sylw, yn cael eu hychwanegu at y gofrestr risgiau strategol.**

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **29 Gorffennaf 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Dawn Docx, Prif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **01745 535254** |
| Pwnc | **Ehangu rôl y Diffoddwr Tân yng Nghymru – capasiti'r Gwasanaeth Tân – Adolygiad Thematig** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi golwg gyffredinol ar yr Adolygiad Thematig o gapasiti'r Gwasanaethau Tân ac Achub i gael rôl ehangach ar gyfer diffoddwyr tân yng Nghymru. Cafodd ei lunio gan y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub i Lywodraeth Cymru, Dan Stephens, a'i gyhoeddi ar 5 Rhagfyr 2021.

2 Mae hefyd yn nodi rhai o'r ystyriaethau ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o ganlyniad i gyhoeddi'r adolygiad hwn a'r llythyrau a ddaeth gan y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, Hannah Blythyn.

3 Mae'r papur hwn yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r ymateb i lythyr y Dirprwy Weinidog ac yn ceisio eu barn.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

4 Ym mis Mawrth 2021, rhoddodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, wybod i'r Senedd am gynlluniau i ddatblygu rôl ehangach i ddiffoddwyr tân yng Nghymru, i gefnogi'r GIG yng Nghymru.

5 Yn dilyn y datganiad hwnnw, penderfynodd Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub Cymru gynnal adolygiad thematig i roi sicrwydd fod gan y tri GTA yng Nghymru y capasiti i wneud unrhyw waith ychwanegol yn deillio o ehangu rôl diffoddwyr tân heb wneud drwg i wasanaethau craidd. Cafodd yr adolygiad gorffenedig ei dderbyn gan y Dirprwy Weinidog, a'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021.

6 Yn y chwe mis dilynol, cafwyd deialog barhaus rhwng Prif Swyddogion Tân Cymru a Swyddogion Llywodraeth Cymru. Ar 8 Gorffennaf 2022, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog at Gadeiryddion yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru i ofyn am gadarnhad ysgrifenedig erbyn 31 Awst 2022 ynghylch a ydynt yn derbyn canfyddiadau'r adolygiad a sut maent yn bwriadu symud ymlaen â'r argymhellion (gweler atodiad 1).

## ARGYMHELLIAD

7 Gofynnir i'r Aelodau nodi:

(i) cyhoeddi "Ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru. Adolygiad Thematig 2021 gan Brif Ymgynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru"

(ii) yr ohebiaeth wedi hynny gan y Dirprwy Weinidog at Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac awdurdodi y dylai ymateb gael ei ysgrifennu gan y Cadeirydd mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân yn adlewyrchu barn yr Aelodau, a'i anfon at y Dirprwy Weinidog erbyn 31 Awst 2022.

## CEFNDIR

8 Ym mis Tachwedd 2020, fe wnaeth Cabinet Llywodraeth Cymru gymeradwyo cynnig i fynd ynglŷn â rôl ehangach i wasanaethau tân ac achub (GTAau) Cymru i gefnogi'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru.

9 Crëwyd gweithgor Ehangu'r Rôl, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau tân ac achub, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (YGAC), Byrddau Iechyd a swyddogion Llywodraeth Cymru. Cafodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ei gynrychioli gan y PSTC Richard Fairhead. Roedd trafodaethau yn y gweithgor yn cytuno bod potensial clir i ddiffoddwyr tân yng Nghymru ymateb i rai argyfyngau meddygol, i bobl a oedd wedi codwm ond heb gael anaf, ac i helpu i atal codwm yn y cartref.

10 Ym mis Mawrth 2021, rhoddodd y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd wybod i'r Senedd am gynlluniau i ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru, i gefnogi'r GIG yng Nghymru.

11 Er mwyn rhoi sicrwydd fod gan y tri GTA yng Nghymru y capasiti i wneud unrhyw waith ychwanegol yn deillio o ehangu rôl diffoddwyr tân heb wneud drwg i wasanaethau craidd, roedd Prif Ymgynghorydd ac Arolygydd Tân ac Achub Cymru wedi cynnal adolygiad thematig a gafodd ei dderbyn gan y Dirprwy Weinidog a'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2021.

12 Ar yr un pryd, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog at Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar y pryd, sef y Cyng. Peter Lewis, yn canmol yr adroddiad ac yn gofyn iddo "ystyried yr argymhellion o ddifri a chymryd yr holl gamau priodol o'u herwydd". Yn y llythyr hwn roedd hi'n cadarnhau y "dylid cytuno ar unrhyw newidiadau i'r arferion gweithio gyda chynrychiolwyr y gweithlu, a hynny mewn ysbryd clir o bartneriaeth gymdeithasol."

13 Roedd yr adolygiad yn gwneud pedwar argymhelliad. Roedd dau yn gysylltiedig ag adolygu'r systemau shifftiau presennol, un yn gysylltiedig â dadansoddi trefn waith ar orsafoedd ac un arall yn gysylltiedig ag ystyried gweithrediad systemau anfon allan.

14 Y systemau shifftiau dan sylw yn yr adolygiad yw'r rhai sy'n cael eu gweithio gan weithwyr ar y tair gorsaf shifftiau 24 awr yn y Rhyl, Wrecsam a Glannau Dyfrdwy ac yn yr Ystafell Reoli. Ar hyn o bryd, maent yn gweithio patrwm shifftiau o ddwy shifft dydd 9 awr, yna dwy shifft nos 15 awr ac yna pedwar diwrnod oddi ar ddyletswydd. Mae'r system shifftiau hon yn seiliedig ar y patrwm shifftiau traddodiadol sy'n rhan o delerau ac amodau diffoddwyr tân, a elwir yn Llyfr Llwyd.

**GWYBODAETH**

15 Cyfarfu'r Prif Swyddogion Tân yn rheolaidd â swyddogion Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae'r Prif Swyddogion Tân yn cael cyfarfodydd un-i-un ar wahân gyda'r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub. Cafwyd cyfle hefyd i'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân drafod argymhellion yr adolygiad thematig gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub, pan roeddent wedi cwrdd yng ngorsaf Wrecsam ar 31 Mawrth 2022. Cafodd hyd y shifftiau nos eu trafod ac i ba raddau y mae blinder yn golygu risg i iechyd a diogelwch oherwydd mai rhwng hanner nos a 07:00 o'r gloch y mae diffoddwyr tân yn gallu gorffwys. Roedd y sgwrs hefyd wedi ymdrin â'r risgiau eraill sy'n wynebu ATAGC, fel y nodwyd gan y Prif Swyddog Tân yn ei hasesiad sefyllfaol.

16 O'r sgyrsiau hyn, ymddengys fod yr argymhelliad i adolygu ac addasu patrymau shifftiau wedi dod i ddechrau o'r angen i gynyddu capasiti, ac roedd Llywodraeth Cymru am negodi ynghylch ehangu rôl diffoddwyr tân yng Nghymru. Erbyn hyn, mae hyn i'w weld yn fater eilaidd oherwydd y pryder am flinder o dan yr arferion gweithio cyfredol.

17 Ar 8 Gorffennaf 2022, roedd Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, Dylan Rees, wedi cael llythyr gan y Dirprwy Weinidog yn ei annog i weithredu ar sail yr argymhellion sydd yn yr adolygiad thematig. Er, nid yw'n cyfeirio'n benodol at addasu hyd shifftiau.

18 Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ymrwymo i ddiogelwch ei holl weithwyr a'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru. Ym mis Medi 2021 roedd wedi cefnogi llwybr gweithredu i fynd i'r afael â'r pryderon a gafodd sylw yn asesiad sefyllfaol y Prif Swyddog Tân. Mae wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer ailstrwythuriad, adolygiadau a gwaith i wella'r meysydd risg-gritigol sef argaeledd gofal tân, hyfforddiant a chapasiti corfforaethol.

19 Mae gwaith wrthi'n cael ei wneud i gael arbenigedd i gynnal adolygiad annibynnol o'r gofynion o ran ymatebion brys ar gyfer Gogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys modelu i werthuso manteision newidiadau mewn systemau shifftiau. Bydd hefyd yn mynd i'r afael ag argymhelliad Archwilio Cymru y "dylai'r Awdurdod adolygu lleoliadau gorsafoedd er mwyn canfod cyfleoedd i sicrhau'r trefniadau ymateb brys gorau posibl."

20 Yn y cyfamser, argymhellir fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân, yn ysgrifennu i ymateb i'r Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol i roi sicrwydd iddi o ymrwymiad yr Awdurdod i ddiogelwch a chynlluniau ar gyfer gweithio gyda'i gilydd tuag at newid er lles pobl Gogledd Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC, ac mae'n dangos ymrwymiad y Gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith ataliol ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Amherthnasol |
| Cyfreithiol | Amherthnasol |
| Staffio | Newid posibl i amodau gwaith gweithwyr ar y gorsafoedd shifftiau 24 awr ac yn yr Ystafell Reoli |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Amherthnasol ar hyn o bryd. |
| Risgiau | Y posibilrwydd o gysylltiadau diwydiannol gwael wedi'u cydbwyso â'r canfyddiad o risg i iechyd a diogelwch yn yr arferion gwaith presennol. |

Fis Rhagfyr diwethaf cyhoeddodd ein Prif Gynghorydd Tân ac Achub, Dan Stephens, adolygiad thematig o gapasiti'r Gwasanaeth i ymgymryd â rôl ehangach. Ei gasgliad oedd bod capasiti o'r fath gan y Gwasanaeth, ond bod angen gwneud newidiadau i arferion gwaith er mwyn gwireddu'r nod hwn. Yn wir, casglodd fod angen gwneud newidiadau o'r fath beth bynnag, er budd diogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd. Ysgrifennais atoch ar 3 Rhagfyr yn cymeradwyo'r adroddiad ac yn gofyn ichi ei ystyried o ddifrif ac yn brydlon.

Mae'r adroddiad hwn, ynghyd ag adroddiadau eraill a lunnir gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, yn cynnwys canfyddiadau a ddatblygwyd yn drylwyr ar sail tystiolaeth gadarn. Mae angen ystyried yr adroddiad hwn yn ofalus a'i roi ar waith yn briodol, oni bai bod rhesymau clir a grymus dros beidio â gwneud hynny.

Mae hynny'n arbennig o wir mewn achosion fel hyn, sy'n peri pryderon gwirioneddol a difrifol ynghylch diogelwch. Nododd adroddiad y Prif Gynghorydd risg sylweddol o ddiffyg hyfforddiant digonol a/neu flinder o dan arferion gwaith presennol. Mae'n bosibl y bydd yn ehangu ar y pryderon hyn yn yr adolygiad mwy trylwyr o ddarpariaeth hyfforddiant y mae wrthi'n ei lunio ar hyn o bryd. Ni ddylai hyn fod yn dderbyniol mewn unrhyw broffesiwn lle mae diogelwch yn hanfodol, yn arbennig lle mae diogelwch y cyhoedd yn y fantol hefyd.

Felly mae'n fater pryder bod cynnydd o ran ystyried argymhellion yr adroddiad a chymryd camau yn eu cylch ledled Cymru wedi bod yn araf yn ystod y chwe mis ers iddo gael ei gyhoeddi. Efallai y bydd rhai o'r newidiadau y gall fod angen eu gwneud yn heriol, ond diogelwch ddylai fod y peth pwysicaf bob tro.

Yn ystod ein cyfarfodydd blaenorol, rwyf wedi pwysleisio’r ymrwymiad i weithio gyda'n gilydd tuag at newid, ond rwyf hefyd wedi datgan yn glir ein bod wedi cyrraedd pwynt lle mae gwir angen inni sicrhau newid. Fel y byddwch yn deall, pan ddaw'r dystiolaeth a nodwyd gan y Prif Gynghorydd a'r risgiau posibl i ddiogelwch diffoddwyr tân a'r cyhoedd i sylw Llywodraeth Cymru, bydd dyletswydd arni i ymateb iddynt a chymryd camau yn eu cylch.

Rwy'n gofyn ichi gadarnhau'n ysgrifenedig eich bod yn derbyn canfyddiadau'r adroddiad cyn gynted â phosibl, a hoffwn weld cynnig ar gyfer symud ymlaen erbyn 31 Awst. Os ydych o'r farn na fydd hynny'n bosibl nac yn angenrheidiol, eto byddwn yn disgwyl cael manylion llawn y penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig. Byddwn i a'm swyddogion yn fwy na pharod i'ch helpu mewn unrhyw ffordd i wneud y newidiadau sydd eu hangen, ac rwy'n gwybod bod y Prif Swyddog Tân Dawn Docx eisoes wedi trafod â’m swyddogion pa fath o gymorth y gellid ei roi.

*This document is available in English* **Eitem ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **29 Gorffennaf 2022** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân (Polisi a Chynllunio Corfforaethol)** |
| Swyddog Cyswllt | **Pippa Hardwick, Pennaeth Cynllunio Corfforaethol (01745 535297)** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad Ebrill 2021 – Mawrth 2022** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi gwybodaeth am weithgarwch digwyddiadau yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22; perfformiad mewn perthynas ag amcanion gwella a llesiant yr Awdurdod, a gweithgarwch digwyddiadau eraill o bwys.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, aeth y Gwasanaeth at:

- 5,354 o achosion brys. Mae’r rhain wedi cynyddu 13.9% o gymharu â’r un cyfnod yn 2020/21. Roedd y cynnydd wedi'i ysgogi'n bennaf gan gynnydd o 56% yn y niferoedd sy'n mynd i wasanaethau arbennig nad ydynt yn danau (958);
- 399 o danau damweiniol mewn cartrefi, lle cafodd 34 o bobl fân anafiadau, pump o bobl anafiadau difrifol, a chollodd pump o bobl eu bywydau;
- 22 o danau yng Ngharchar Berwyn, o gymharu â 47 yn y flwyddyn ariannol flaenorol;
- 207 o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, gyda 71 ohonynt yn ei gwneud yn ofynnol i griwiau ryddhau neu dynnu pobl allan o gerbydau;
- 2,517 o alwadau diangen, a oedd yn cynnwys cynnydd o 15.2% yn nifer y galwadau diangen gan systemau larwm tân awtomatig.

3 Yn ystod y cyfnod hwn hefyd cwblhaodd y Gwasanaeth 14,062 o Archwiliadau Diogel ac Iach, sef 2,721 yn fwy nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol (11,341).

**ARGYMHELLIAD**

4 Bod yr Aelodau’n nodi cynnwys yr adroddiad monitro perfformiad.

**GWYBODAETH**

5 **Yr holl ddigwyddiadau**

Aeth y Gwasanaeth at gyfanswm cyfunol o 5,354 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen yn ystod 2020/21, sef 13.9% yn fwy nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol. O fewn y cyfanswm hwn roedd cynnydd o 97.1% yn nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd o gymharu ag yn 202/21, ac roedd hyn i'w ddisgwyl ar ôl codi cyfyngiadau Covid-19 ers dechrau 2021/22.

Cafwyd 56.0% o gynnydd hefyd yn nifer yr adegau yr aethpwyd at wasanaethau arbennig argyfyngau nad oeddent yn danau. Unwaith eto, roedd hyn i'w ddisgwyl yn dilyn newid strategaeth anfon allan y Gwasanaeth, er mwyn cynyddu ein presenoldeb mewn digwyddiadau brys pan ddaw cais gan asiantaeth sy'n bartner i ni (Gweler adran 8).

6 **Tanau**

Aeth y Gwasanaeth at 880 o brif danau, 879 o danau eilaidd a 120 o danau simnai, sef 1,879 i gyd a chynnydd o 6.2% o gymharu â 1,770 yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

Gan edrych yn fanylach ar y mathau o gategorïau tân, gwelodd y Gwasanaeth gynnydd yn nifer y tanau mewn adeiladau domestig ac annomestig, cerbydau a thanau yn yr awyr agored.
Fodd bynnag, cafwyd gostyngiad yn nifer y tanau simnai (>23.6%) a hefyd yn nifer y tanau bwriadol yng Ngharchar EM Berwyn (>64%); sy'n ffrwyth y gwaith partneriaethol parhaus sy'n digwydd rhwng ein Tîm Diogelwch Tân i Fusnesau a staff y carchar.

Unwaith eto, gallai'r cynnydd yn nifer y tanau fod wedi digwydd o ganlyniad i newid yn ymddygiad pobl ar ôl i gyfyngiadau Covid-19 gael eu codi. Bydd hyn yn cael ei fonitro'n agos yn ystod 2022/23 er mwyn canfod tueddiadau a chynnal ymyriadau diogelwch cymunedol yn unol â hynny.

7 **Galwadau diangen**

Aeth y Gwasanaeth at 2,517 o alwadau diangen, o gymharu â 2,315 yn 2020/21. Roedd y rhai'n deillio o systemau Larymau Tân Awtomatig wedi codi i 1,398 o 1,214, a'r prif gyfraniadau oedd y rhai o fflatiau/maisonettes wedi'u hadeiladu'n bwrpasol (o 330 i 393), a byngalos a thai un ddeiliadaeth gyda'i gilydd (o 488 i 578).

Mae'r cynnydd hwn yn cyd-fynd â'r ffordd y mae'r Gwasanaeth yn ymateb i Larymau Tân Awtomatig, gyda llefydd cysgu megis ysbytai, cartrefi gofal a llety gwarchod yn wastad yn derbyn presenoldeb gan y Gwasanaeth. Ar ôl pob achos o droi allan bydd aelodau o staff Amddiffyn Tân yn mynd i weld sut gellir gostwng nifer y galwadau diangen mewn safleoedd annomestig yn y dyfodol.

8 **Digwyddiadau gwasanaeth arbennig**

Roedd presenoldeb mewn digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi codi 56% i 958 o 614 gan fod y Gwasanaeth wedi mabwysiadu dull gwahanol, o blaid cynyddu ei gymorth i geisiadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid i ni mewn digwyddiadau brys y byddan nhw'n mynd atynt.

Roedd codi cyfyngiadau pandemig a theithio wedi arwain at gynnydd mewn traffig ar y ffyrdd, a chynnydd o 97.1% mewn gwrthdrawiadau ar y ffyrdd o 105 i 207, lle roedd 83 yn ymwneud â gwneud cerbyd neu leoliad yn ddiogel (yn unig) a 71 yn ymwneud â rhyddhau pobl neu dorri pobl allan.

Cafwyd 242 o gynnydd yn y presenoldeb mewn digwyddiadau gwasanaeth arbennig eraill (47.5%) o 509 i 751, a'r prif gyfranwyr oedd 'cael mynediad' (o 71 i 113); cymorth i asiantaethau eraill (o 38 i 95); peri mynediad/gadael (o 63 i 77); rhyddhau pobl o lifftiau (o 37 i 75); gwneud lleoliad yn ddiogel (ac eithrio mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd) (o 4 i 49) a gwahanu pobl oddi wrth wrthrychau (o 36 i 70).

Mae'r cynnydd hwn yn dangos llwyddiant y gwaith sydd wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn i geisio cynyddu eich cymorth mewn digwyddiadau yn deillio o asiantaeth sy'n bartner i ni. Erbyn hyn, mae gan weithredwyr yr Ystafell Reoli yr annibyniaeth i wneud penderfyniadau deinamig am anfon allan i geisiadau galwadau am wasanaethau arbennig a wneir gan ymatebwyr brys eraill a phartneriaid, gan arwain at y cynnydd amlwg hwn.

9 **Tanau damweiniol mewn cartrefi**

Aeth y Gwasanaeth at 399 o danau damweiniol mewn cartrefi, sef 39 yn fwy nag yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Arweiniodd y tanau hyn at bump o bobl yn cael anafiadau difrifol a phump o bobl yn colli eu bywydau (bydd nifer olaf y marwolaethau yn destun rheithfarnau crwneriaid).

Y prif gyfranwyr at y cynnydd mewn tanau damweiniol mewn cartrefi oedd tanau coginio yn cynnwys sosbenni sglodion/ffrïwyr saim dwfn (o 13 i 26) a digwyddiadau coginio eraill (o 71 i 81), gyda 'thynnu sylw' a chwympo i gysgu yn brif ffactorau dynol yn gysylltiedig â'r cynnydd. Mae'r ffactorau cyfrannol hyn wedi bod yn destun sylw i ymgyrchoedd a gwaith cyfathrebu'r Gwasanaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, ymgysylltu â phartneriaethau a gweithio ar ôl tanau damweiniol mewn cartrefi mewn 'mannau problemus' wrth ymyl ble mae tân wedi digwydd.

10 **Archwiliadau Diogel ac Iach**

Roedd y Gwasanaeth wedi cynnal 14,062 o Archwiliadau Diogel ac Iach o gymharu â 11,341 yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Cynyddodd y nifer o archwiliadau â blaenoriaeth uchel i 6,039, ac roedd 3,285 (54.4%) o'r rheini yn ymateb i atgyfeiriadau gan asiantaethau sy'n bartneriaid i ni.

Archwiliadau Diogel ac Iach â blaenoriaeth uchel yw'r bobl sy'n byw yn y gymuned ac yn fwyaf tebygol o gael tân gartref sy'n arwain at anaf neu farwolaeth, a hynny o ganlyniad i gael ffactorau cyfrannol sy'n eu gwneud yn agored i niwed, megis: dros oedran pensiwn, ysmygu, byw ar eu pen eu hunain, hanes blaenorol o dân ac ati. Felly, mae cynnydd yn nifer yr archwiliadau diogel ac iach i gartrefi â blaenoriaeth uchel ers y flwyddyn flaenorol yn golygu llwyddiant yn ein gwaith targedu ataliol.

11 **Larymau mwg/gwres**

Yn 349 (87.5%) o'r 399 o danau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt, roedd o leiaf un larwm mwg/gwres eisoes wedi'i osod yn yr adeilad, tra yn 315 (78.9%) o'r 399 o danau damweiniol mewn cartrefi roedd cyfuniad o'r ddau – roedd o leiaf un larwm mwg/gwres eisoes wedi'i osod ac roedd y tân wedi'i gyfyngu i'r ystafell wreiddiol/lle aeth yr eitem ar dân yn gyntaf, neu wedi achosi difrod gwres/mwg yn unig.

Cafwyd cynnydd lle roedd y larwm mwg/gwres wedi'i osod ond heb roi rhybudd (o 65 i 78), ac yn 66 o'r 78 o danau damweiniol mewn cartrefi, roedd y tân wedi'i gyfyngu i'r ystafell wreiddiol/lle aeth yr eitem ar dân yn gyntaf, neu wedi achos difrod gwres/mwg yn unig. Dyma sy'n debygol o fod y prif reswm pam nad oedd larwm mwg/gwres wedi rhoi rhybudd gan eu bod fel arfer wedi'u gosod ar lwybrau dianc (landin neu gyntedd) ac nid yn yr ystafell fwyaf tebygol y bydd tân yn deillio ohono, megis lolfa neu ystafell wely.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n gymorth i'r Awdurdod fonitro ei berfformiad mewn perthynas â'r amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Corfforaethol 2021-24. |
| Cyllideb | Mae'n gymorth i dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar y gyllideb oherwydd gweithgarwch digwyddiadau annisgwyl. |
| Cyfreithiol | Mae'n gymorth i'r Awdurdod sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |
| Staffio | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |

| | |
|---|---|
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau. |
| Risgiau | Peidio â bodloni'r gofynion cyfreithiol i adrodd ynghylch perfformiad a'i fonitro, a allai effeithio ar y gallu i sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ateb y galw. |

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD

**Am y deuddeg mis**

## Ebrill 2021 – Mawrth 2022


**Mae'r ffigyrau'n rhai dros dro a gallent fod yn agored i'w newid.**

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| **ADRODD YNGHYLCH GWAITH DIGWYDDIADAU** | |
| | |
| **YR HOLL DDIGWYDDIADAU** | |
| Yr holl ddigwyddiadau | 1 |
| | |
| **TANAU YN ÔL CATEGORI** | |
| Tanau yn ôl categori a chymhelliad | 2 |
| Tanau yn ôl math o eiddo a chymhelliad | 3 |
| | |
| **GALWADAU DIANGEN** | |
| Galwadau diangen yn ôl categori | 4 |
| | |
| **DIGWYDDIADAU GWASANAETH ARBENNIG** | |
| Digwyddiadau gwasanaeth arbennig yn ôl categori | 5 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri pobl allan/Rhyddhau | 6 |
| | |
| **MONITRO MEWN PERTHYNAS AG AMCAN 1- GWEITHIO TUAG AT WNEUD GWELLIANNAU I IECHYD, DIOGELWCH A LLES POBL YNG NGHYMRU** | |
| Tanau damweiniol mewn cartref | 7 |
| Marwolaethau ac anafusion oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 8 |
| Archwiliadau Diogel ac Iach | 9 |
| Gweithrediad larymau mwg mewn tanau damweiniol mewn cartrefi | 10 |
| | |
| **GEIRFA** | |
| Geirfa | 11 |

## 1.0 Yr holl ddigwyddiadau

Yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 aeth y Gwasanaeth at 5,354 o ddigwyddiadau brys a galwadau diangen, sef cynnydd o 13.9% o gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* / % y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt | 2021-22 | 1,322 | 1,415 | 1,254 | 1,363 | 5,354 | ↑ 13.9% | 4,957 | ↑ 8.0% |
| | 2020-21 | 1,378 | 1,232 | 998 | 1,091 | 4,699 | | | |
| Yr holl danau | 2021-22 | 575 | 480 | 348 | 476 | 1,879 | ↑ 6.2% | 2,000 | ↓ 6.0% |
| | 2020-21 | 653 | 433 | 324 | 360 | 1,770 | | | |
| Yr holl ddigwyddiadau gwas-anaeth arbennig | 2021-22 | 152 | 233 | 315 | 258 | 958 | ↑ 56.0% | 672 | ↑ 42.5% |
| | 2020-21 | 96 | 182 | 137 | 199 | 614 | | | |
| Yr holl alwadau diangen | 2021-22 | 595 | 702 | 591 | 629 | 2,517 | ↑ 8.7% | 2,285 | ↑ 10.2% |
| | 2020-21 | 629 | 617 | 537 | 532 | 2,315 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 2.0 Tanau, yn ôl Categori a Chymhelliad

2.1 **Prif danau –** Cafwyd cynnydd yn nifer y prif danau o 9.5% i 880 o 804 yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22.

2.2 **Tanau eilaidd –** Cafwyd cynnydd yn nifer y tanau eilaidd yr aethpwyd atynt o gymharu â'r un cyfnod yn 2020/21, gan gynyddu o 809 i 879 (8.7%).





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* / % y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif danau | 2021-22 | 251 | 229 | 200 | 200 | 880 | ↑ 9.5% | 910 | ↓ 3.3% |
| | 2020-21 | 224 | 217 | 190 | 173 | 804 | | | |
| Tanau eilaidd | 2021-22 | 293 | 244 | 111 | 231 | 879 | ↑ 8.7% | 941 | ↓ 6.6% |
| | 2020-21 | 394 | 202 | 95 | 118 | 809 | | | |
| Tanau simnai | 2021-22 | 31 | 7 | 37 | 45 | 120 | ↓ 23.6% | 149 | ↓ 19.5% |
| | 2020-21 | 35 | 14 | 39 | 69 | 157 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 3.0 Prif Danau, yn ôl Math o Eiddo a Chymhelliad

3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, cafodd 54 o brif danau eu cynnau'n fwriadol mewn adeiladau amhreswyl, o gymharu â 67 yn ystod yr un cyfnod yn 2020/21.

3.2 Yng Ngharchar EM Berwyn, cafwyd 22 o danau bwriadol o gymharu â 47 yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf.





| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* / % y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl brif danau bwriadol | 2021-22 | 40 | 42 | 31 | 30 | 143 | ↓ 15.9% | 220 | ↓ 34.9% |
| | 2020-21 | 41 | 47 | 34 | 48 | 170 | | | |
| Yr holl brif danau dam-weiniol | 2021-22 | 211 | 187 | 169 | 170 | 737 | ↑ 16.2% | 690 | ↑ 6.8% |
| | 2020-21 | 183 | 170 | 156 | 125 | 634 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 4.0 Galwadau Diangen

Ym mlwyddyn ariannol 2021/22 cafwyd 2,517 o alwadau diangen; cynnydd o 8.7% o 2,315 yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Cafwyd cynnydd o 15.2% yn nifer y larymau tân awtomatig, o 1,214 i 1,398. Cynyddodd nifer y galwadau diangen didwyll o 1,061 i 1,076 (1.4%).





| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | Cyfartaledd 3 blynedd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Larymau Tân Awtomatig | 1,113 | 1,133 | 1,213 | 1,214 | 1,398 | 1,187 |
| Didwyll | 961 | 1,092 | 1,020 | 1,061 | 1,076 | 1,058 |
| Maleisus | 39 | 41 | 41 | 40 | 43 | 41 |
| Cyfanswm | 2,113 | 2,266 | 2,274 | 2,315 | 2,517 | 2,285 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* / % y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr holl alwadau diangen | 2021-22 | 595 | 702 | 591 | 629 | 2,517 | ↑ 8.7% | 2,285 | ↑ 10.2% |
| | 2020-21 | 629 | 617 | 537 | 532 | 2,315 | | | |
| Larwm Tân Awtomatig | 2021-22 | 311 | 403 | 345 | 339 | 1,398 | ↑ 15.2% | 1,187 | ↑ 17.8% |
| | 2020-21 | 282 | 331 | 304 | 297 | 1,214 | | | |
| Galwadau diangen didwyll | 2021-22 | 278 | 287 | 234 | 277 | 1,076 | ↑ 1.4% | 1,058 | ↑ 1.7% |
| | 2020-21 | 330 | 285 | 219 | 227 | 1,061 | | | |
| Maleisus | 2021-22 | 6 | 12 | 12 | 13 | 43 | ↑ 7.5% | 41 | ↑ 4.9% |
| | 2020-21 | 17 | 1 | 14 | 8 | 40 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 5.0 Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig

5.1 Roedd nifer y digwyddiadau gwasanaeth arbennig wedi cynyddu 56% i 958 yn ystod 2021/22, o gymharu â 614 yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd gwrthdrawiadau traffig ffyrdd wedi gweld cynnydd o 97.1% o 105 i 207 tra roedd digwyddiadau 'Heblaw am wrthdrawiadau ar y ffyrdd' wedi cynyddu 47.5%, o 509 i 751.





| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|
| Prosiectau blaenorol (Tîm Cymorth Cymunedol, Cyd-ymateb) | 938 | 121 | 0 | 0 | 1 |
| Heblaw gwrthdrawiadau (ac eithrio prosiectau) | 420 | 332 | 396 | 423 | 617 |
| GRFfs | 204 | 221 | 179 | 105 | 207 |
| Prosiectau cyfredol (Ar goll o gartref, Dull Mynediad) | 25 | 81 | 73 | 86 | 133 |

| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* / % y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr holl ddigwyddiadau gwasanaeth arbennig | 2021-22 | 152 | 233 | 315 | 258 | 958 | ↑ 56% | 672 | ↑ 42.6% |
| | 2020-21 | 96 | 182 | 137 | 199 | 614 | | | |
| Gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 2021-22 | 31 | 56 | 68 | 52 | 207 | ↑ 97.1% | 168 | ↑ 23.2% |
| | 2020-21 | 17 | 32 | 32 | 24 | 105 | | | |
| Heblaw gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd | 2021-22 | 121 | 177 | 247 | 206 | 751 | ↑ 47.5% | 504 | ↑ 49.0% |
| | 2020-21 | 79 | 150 | 105 | 175 | 509 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 6.0 Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a Thorri Pobl Allan/Rhyddhau

6.1 O'r 207 o wrthdrawiadau traffig ffordd yr aethpwyd atynt ym mlwyddyn ariannol 2021/22, roedd 34.3% yn ymwneud â'r Gwasanaeth yn defnyddio offer i ryddhau o leiaf un person anafedig o'r cerbyd tra bod 71 wedi arwain at anafiadau, er mai dim ond mân anafiadau a gafodd y mwyafrif o'r anafusion.





| | |
|---|---|
| **207** | o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd |
| **100** | o ddigwyddiadau lle roedd pobl wedi cael anaf |
| **71** | o ddigwyddiadau lle bu'n rhaid torri pobl allan / rhyddhau |

| **Difrifoldeb yr Anaf *** | **Nifer y bobl** |
|---|---|
| Archwiliad rhagofalus | 8 |
| Cymorth Cyntaf | 13 |
| Mân Anafiadau | 67 |
| Anafiadau Difrifol | 54 |
| Marwolaethau | 16 |
| **Pan fo anafiadau oherwydd gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd ar gael, caiff y rhain eu cofnodi yn yr IRS yn yr un categori ag anafiadau tân* | |

## 7.0 Monitro mewn perthynas ag amcan Gwella a Llesiant - A: *Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd.*

7.1 **Tanau damweiniol mewn cartrefi**

Aeth y Gwasanaeth at 399 o danau damweiniol mewn cartrefi yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, sef 39 yn fwy nag yn yr un cyfnod yn 2020/21 a 14.7% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd sef 348.




| Categori | Blwyddyn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfanswm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* / % y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 113 | 95 | 106 | 85 | 399 | ↑ 10.8% | 348 | ↑ 14.7% |
| | 2020-21 | 104 | 83 | 96 | 77 | 360 | | | |

*Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## 8.0 Marwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi

8.1 Cafwyd pum marwolaeth yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22, sef yr un fath ag yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Cafwyd dau yn fwy o anafiadau difrifol mewn tanau damweiniol mewn cartrefi o gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, tra cafwyd pump yn fwy o fân anafiadau nag yn ystod yr un cyfnod yn 2020/21. Gostyngodd nifer y gwiriadau rhagofalus ychydig, o 33 i 31, tra bod nifer y bobl a oedd angen cymorth cyntaf yn y fan a'r lle wedi cynyddu o 26 i 43.


| **Difrifoldeb yr anaf** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Archwiliad rhagofalus | 32 | 13 | 19 | 33 | 31 |
| Cymorth Cyntaf | 25 | 27 | 41 | 26 | 43 |
| Mân anafiadau | 39 | 11 | 26 | 29 | 34 |
| Anafiadau difrifol | 2 | 6 | 4 | 3 | 5 |
| Marwolaeth | 1 | 5 | 3 | 5 | 5 |
| **Cyfanswm** | **99** | **62** | **93** | **96** | **118** |

| **Categori** | **Blwydd-yn** | **Ch.1** | **Ch.2** | **Ch.3** | **Ch.4** | **Cyfan-swm y cyfnod hyd yma** | **Newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 43 | 23 | 30 | 17 | 113 | ↑ 22 |
| | 2020-21 | 26 | 15 | 24 | 26 | 91 | |
| Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi | 2021-22 | 3 | 0 | 0 | 2 | 5 | → 0 |
| | 2020-21 | 3 | 0 | 1 | 1 | 5 | |

| **Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol** | |
|---|---|
| 79 | ↑ 34 |

## 9.0 Archwiliadau Diogel ac Iach

9.1 Roedd y Gwasanaeth wedi cynnal 14,062 o Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod y cyfnod adrodd, a chafodd 4,896 (34.8%) o'r rheini eu cynnal i ymateb i atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner i ni.





| Categori | Blwydd-yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | 3 chyfnod cymharol blaenorol* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| % o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach a gynhaliwyd ac a oedd wedi dod drwy atgyfeiriad gan sefydliad bartner | 2021-22 | 40% | 35% | 35% | 32% | 35% | ↑ 1pp | 30% | ↑ 5pp |
| | 2020-21 | 30% | 37% | 36% | 36% | 34% | | | |
| * Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd. | | | | | | | | | |

## 10.0 Larymau Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

10.1 Roedd larymau mwg/gwres yn bresennol yn y mwyafrif o danau damweiniol mewn cartrefi, er nad aeth pob un ohonynt ymlaen i weithredu; yn 50 o'r tanau damweiniol mewn cartrefi, nid oedd larwm wedi'i osod.

10.2 O'r 399 o danau damweiniol mewn cartrefi, roedd 355 wedi'u cyfyngu i'r ystafell wreiddiol, yr eitem wedi mynd ar dân gyntaf, neu roedd difrod gwres/mwg yn unig.




| Categori | Blwydd-yn | Ch.1 | Ch.2 | Ch.3 | Ch.4 | Cyfan-swm y cyfnod hyd yma | % y newid | Cyfartaledd y 3 chyfnod cymharol blaenorol* / % y newid | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Larwm mwg yno ac wedi seinio a rhoi rhybudd | 2021-22 | 54 | 46 | 55 | 35 | 190 | ↑ 15.2% | 160 | ↑ 18.8% |
| | 2020-21 | 48 | 36 | 50 | 31 | 165 | | | |
| Larwm mwg yno, wedi seinio ond heb roi rhybudd | 2021-22 | 20 | 20 | 16 | 22 | 78 | ↑ 20.0% | 64 | ↑ 21.9% |
| | 2020-21 | 18 | 15 | 13 | 19 | 65 | | | |
| Larwm mwg heb seinio | 2021-22 | 26 | 16 | 21 | 18 | 81 | ↑ 2.5% | 77 | ↑ 5.2% |
| | 2020-21 | 22 | 21 | 20 | 16 | 79 | | | |
| Larwm mwg ddim yno | 2021-22 | 13 | 13 | 14 | 10 | 50 | ↓ 2.0% | 47 | ↑ 6.4% |
| | 2020-21 | 16 | 11 | 13 | 11 | 51 | | | |

* Mae'r colofnau llwyd yn dangos: cyfartaledd y tair blwyddyn ariannol flaenorol (ar sail y cyfnod adrodd cyfatebol); canran y newid ar sail y gwahaniaeth rhwng y flwyddyn ariannol gyfredol a'r cyfartaledd tair blynedd.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn cael ei roi o fewn un o dri chategori, sef prif danau, tanau eilaidd neu danau simnai. |
| Prif Danau | Dyma danau nad ydynt yn danau simnai, ac sy'n digwydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfail), cerbydau, carafanau ac ôl-gerbydau, storfeydd y tu allan, cyfarpar a pheiriannau, eiddo amaethyddol a choedwigoedd, ac adeileddau eraill y tu allan, megis pontydd, blychau postio, twneli ayyb.<br><br>Mae tanau yn unrhyw le yn brif danau os oes anafusion yno, os oes angen achub neu ddianc, a hefyd danau yn unrhyw le yr aeth pump neu ragor o beiriannau tân atynt. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simnai nac yn brif danau.<br><br>Mae tanau eilaidd yn golygu bod nid oedd yna anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt.<br><br>Fel arfer, tanau eilaidd yw tanau sy'n digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried - yn yr un modd ag eiddo amaethyddol neu goedwigoedd - yn brif danau), dodrefn y tu allan, goleuadau traffig ayyb. |
| Tanau Simnai | Dyma danau mewn adeiladau sydd wedi'u meddiannu, lle mae'r tân wedi ei gyfyngu i'r simnai ei hun, hyd yn oed os oes gwres neu ddifrod oherwydd mwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simnai ei hun.<br><br>Nid yw tanau simnai'n golygu anafusion, achub neu ddianc, a bydd pedair neu lai o beiriannau tân wedi mynd atynt. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Dyma ddigwyddiadau lle nad oes tân, a lle mae angen peiriant neu swyddog, ac maent yn cynnwys:<br><br>a) Argyfyngau lleol e.e. llifogydd, digwyddiadau traffig ar y ffyrdd, achub pobl, gwneud sefyllfa 'yn ddiogel' ayyb;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi eu cloi i mewn neu allan ayyb;<br>ch) Trefniadau o flaen llaw i fynd i ddigwyddiadau, a allai gynnwys darparu cyngor ac archwiliadau. |
| Galwadau diangen (cyfarwyddyd cyffredinol) | Pan fo'r GTA yn mynd i leoliad lle credir bod digwyddiad, ond o gyrraedd gwelir nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli neu wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os bydd y peiriant yn cael 'ei droi'n ôl' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, ni chyfrifir ei fod wedi troi allan, ac nid oes angen adrodd yn ei gylch. |
| Galwadau Diangen – Maleisus | Dyma danau sy'n cael eu gwneud gyda'r bwriad o gael y GTA i fynd at ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys am resymau bwriadol neu rai a amheuir o fod yn faleisus. |
| Galwadau Diangen – Didwyll | Dyma alwadau a wneir yn ddidwyll pan gredir bod y GTA yn wir angen mynd at dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Larymau Tân Awtomatig | Dyma alwadau a ddaw gan larwm mwg ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larwm yn canu trwy ddamwain neu pan fo larwm yn canu a rhywun yn galw'r GTA fel mater o drefn oherwydd trefniant sefydlog, h.y. heb 'benderfyniad', er enghraifft gan ganolfan alwadau diogelwch neu rywun wedi ei enwebu o fewn sefydliad). |